# PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, YSTADAU SIROL

DYDD LLUN, 14 MEDI 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goodway, Gavin Hill-John, Hopkins a/ac Merry |

## 7 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 8 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 9 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf fel cofnod cywir.

## 10 : CYLCH GORCHWYL

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi ei gylch gorchwyl fel a ganlyn:

'Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor'.

## 11 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

## 12 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL YSTADAU'R SIR

Cafodd y Pwyllgor Penodiadau ei ailgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu. Roedd gan y Pwyllgor 5 adroddiad Canolfan Asesu i'w hadolygu.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor gais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut sgoriodd pob ymgeisydd yn erbyn cymwyseddau gofynnol y swydd a'r asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn trafod cryfderau a sgiliau'r ymgeisydd. Ystyriodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno dau ymgeisydd am gyfweliad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr opsiynau pwnc cyflwyno gan osod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:

1. I wahodd ymgeiswyr 7964 a 7968 am gyfweliad;

2. I roi gwybod i'r ymgeiswyr beth fydd testun y cyflwyniad ac y caiff uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw; a

3. I lunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

13 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Llun 21 Medi 2020 am 9.00 am.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm